Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD MAWRTH 24ain MAI 2016 am 2.00pm
YSTAFELL 1DM2 NEUADD Y SIR

Presennol:

Cyng. Jamie Adams	Arweinydd Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 4.05pm)
Steve Moore	Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dafydd Llewellyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Dyfed Powys (gadawodd am 4.05pm)
Alec Don	Prif Weithredwr Porthladd Aberdaugleddau(gadawodd am 4.10pm)
Sue Leonard	Prif Swyddog Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau'r De-orllewin, Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Tegryn Jones	Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Wynne Evans	Cadeirydd Gwasanaethau Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Gwasanaethau Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Sir Penfro(gadawodd am 4.00pm)
Uwchar. Ian John	Heddlu Dyfed Powys
Helen Murray	Prif Weithredwr PLANED
Sarah Jennings (SJe)	Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfathrebu ac Ymgysylltu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Kate Chamberlain	Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru
Jocelyn Llewhellin	Uwch-reolwr Cysylltiadau Allanol, Canolfan Byd Gwaith (gadawodd am 4.20pm)

Hefyd yn bresennol

Ted Sangster	Cadeirydd Panel Busnes Sir Benfro
Claire George	Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu

Cymorth / Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu (dros dro), Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu (dros dro), Cyngor Sir Penfro

Ymddiheuriadau

Bernadine Rees	Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd)
Christine Harley	Y Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol

Dechreuodd y cyfarfod am 2.05pm.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y rhai a restrwyd uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain Mawrth 2016 fel cofnod cywir.

3. Cofnod Gweithredu

Eitem 11 – Gwneud arolwg ar draws partneriaid y BGC i feintoli materion denu a dal gafael er mwyn nodi meysydd cydweithio – Cadarnhaodd SPJ y byddai arolwg denu a dal gafael yn cael ei wneud. Panel Busnes Sir Benfro roedd ar hyn o bryd yn edrych ar faterion cysylltiedig eraill er mwyn ysbrydoli'r gwaith.

Roedd holl eitemau eraill ar y cofnod gweithredu wedi cael eu gorffen neu eu cynnwys ar yr agenda.

4. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cynigiwyd a chytunwyd y dylai JA barhau ei swyddogaeth fel Cadeirydd BGLl ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd ac y dylai BR barhau fel Is-gadeirydd

5. Cyfranogwyr Gwadd: derbyn gwahoddiad yn ffurfiol

Eglurodd NE bod cyfranogwyr fel y rhestrwyd yng Nghanllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei wahodd eisoes i eistedd ar BGLl beth amser yn ôl fel rhan o'r trefniadau pontio BGLl - BGC. Felly, nid oedd angen i gynrychiolwyr yn y cyfarfod heddiw ond i nodi'n ffurfiol eu bod yn derbyn y gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd BGC y dyfodol.

Derbyniodd cynrychiolwyr y sefydliadau hynny oedd yn bresennol ac a ddynodwyd fel y cyfranogwyr gwadd eu gwahoddiadau. Nid oedd CH o NPS yn bresennol yn y cyfarfod a byddai felly'n cael ei chysylltu ar wahân i dderbyn ei lle'n ffurfiol ar y Bwrdd. **LR**

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd Coleg Sir Benfro i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol o ystyried ei statws yn y gymuned a'i gyfraniad at addysg bellach yn y Sir. Roedd partneriaid yn cytuno â'r cynnig hwn a byddai gwahoddiad swyddogol i fynychu cyfarfodydd y dyfodol yn cael ei estyn. Nodwyd hefyd y gall fod angen adolygu aelodaeth y Bwrdd yn y dyfodol ar sail yr Asesiad a Chynllun Ffyniant. **LR**

6. Cylch Gorchwyl

Nododd NE bod angen i'r Bwrdd gytuno cylch gorchwyl yn ei gyfarfod cyntaf a byddai partneriaid yn cofio bod cylch gorchwyl drafft wedi cael ei gyflwyno yng nghyfarfod diwethaf BGLl ar 29ain Mawrth. Roedd sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft wedi cael eu hymgorffori yn ôl y gofyn mewn fersiwn drafft terfynol i'w gytuno.

O ran materion ffurfio cworwm fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, nododd NE bod y Ddeddf yn eglur trwy fod pob un o'r pedwar aelod statudol yn gorfod bod yn bresennol er mwyn cynnal cyfarfod yn gyfreithlon. Fodd bynnag, er mwyn bod mor hyblyg ag y bo modd o fewn gofynion y Ddeddf, ychwanegwyd adran at y cylch gorchwyl i geisio sicrhau bod llais cyfartal gan holl bartneriaid. Mater arall i'w benderfynu oedd a ddylid gwahodd y cyhoedd i wylio neu gyfranogi yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Pwynt 27 – '*Mae Cyfarfodydd y Bwrdd yn agored i'r cyhoedd wylio a holi ynghylch unrhyw eitem agenda o sylwedd gyda chaniatâd y Cadeirydd o flaen llaw'*

Ar ôl trafodaeth hir, ac yn ysbryd manteisio ar y cyfle fel BGC newydd i hyrwyddo perthynas fwy agored â'i golwg tuag allan gyda dinasyddion, cytunwyd y dylid caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y BGC a mynegi barn a meddyliau mewn cysylltiad â gwaith y Bwrdd, yn ogystal â chael holi ynghylch gweithrediad y Bwrdd a'i swyddogaethau. Byddai cwestiynau perthynol i waith sefydliadau unigol yn cael eu hanfon at y sefydliadau hynny i'w trin drwy drefnau presennol.

Nodwyd y byddai angen cyhoeddi cofnodion a phapurau cyfarfodydd y BGC o flaen llaw er mwyn i hyn weithio'n effeithiol ac y byddai gan y tîm Cymorth Partneriaeth a Chraffu swyddogaeth 'gwylio'r porth' hefyd o ran sicrhau mai dim ond cwestiynau a sylwadau perthnasol oedd yn cael eu gwneud. Nodwyd hefyd y gallai fod yn anodd rhoi adnoddau i'r swyddogaeth hon o fewn y tîm presennol. **LR**

Byddai cwestiynau ynghylch gwaith a phenderfyniadau'r Bwrdd mewn cysylltiad â'r Asesiad a/neu'r Cynllun Ffyniant yn cael eu trin trwy ddefnyddio peirianwaith presennol gan Bwyllgor Craffu a Throsolygu'r Economi, a ddynodwyd fel y Pwyllgor cyfrifol am Graffu ar y BGC cyn sefydlu'r Pwyllgor Partneriaethau newydd ym mis Rhagfyr (rhan 23 o'r cylch gorchwyl).

Pwynt 19 – *'Nidyw penderfyniadau'r Bwrdd (er enghraifft cytuno ar asesu ffyniant lleol a'r cynllun ffyniant lleol) yn ddilys heblaw pan gânt eu gwneud ar y cyd ac yn unfrydol gan y Bwrdd pan fydd holl Aelodau Statudol yn bresennol'*

Dywedodd NE yr ychwanegwyd y cymal hwn yn dilyn sgyrsiau gyda chydweithwyr ledled Cymru ac mewn ymgais i fod yn gynhwysol a sicrhau bod llais gan holl bartneriaid yn y broses benderfynu. Bwriad y cymal oedd sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Ddeddf wrth sicrhau cynwysoldeb a bod â'r nod o gael cytundeb.

Nododd SJe bod y mater hwn wedi cael ei godi mewn cyfarfodydd BGC eraill y bu ynddynt a bod dwy ardal arall wedi gofyn iddi lunio cyfarwyddyd manwl ar y mater. Gofynnodd KC i SJe anfon y cyfarwyddyd hwn ati hi fel y gallai gael ymateb Llywodraeth Cymru, y byddai wedyn yn ceisio'i gylchredeg o fewn pedair wythnos. **SJe/KC**

Adroddiad SJe i'w gylchredeg i'r BGC

Cytunodd y Bwrdd i symud ymlaen ar sail cydsyniad o ran y cylch gorchwyl cyn cael ymateb Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd KC bod hyn, yn ei barn, yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cytunodd y Bwrdd i'r egwyddor y bydd un bleidlais y sefydliad heb ystyried nifer y cynrychiolwyr o sefydliad sy'n bresennol yn y cyfarfod.

Roedd trafodaeth fer ar y Pwyllgor Craffu a Throsolygu Partneriaethau, ei aelodaeth a pha mor aml y byddai'n cyfarfod. Eglurodd SPJ y byddai'r Pwyllgor newydd yn canolbwyntio nid yn unig ar waith y BGC ond hefyd yn edrych ar drefniadau partneriaeth eraill o fewn yr awdurdod ac y byddai cyfarfodydd yn cyd-fynd â chyfarfodydd y BGC. Gofynnodd SL a fyddai cyfle i symud i gyfeiriad patrwm o graffu gan ddinasyddion / y gwasanaeth. Fodd bynnag, nododd JA y byddai hyn yn gwneud aelodaeth y Pwyllgor yn rhy fawr oherwydd gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1989 mewn cysylltiad â chydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau. Nododd NE bod yr awdurdod yn gweithio gyda'rGanolfan Craffu Cyhoeddus ynghylch y patrymau craffu newydd sy'n cael eu cyflwyno o fis Medi ymlaen ac y byddai'ngofyn am eu cyngor ar ffordd ymlaen o ran posibilrwydd cyfethol dinasyddion. **NE**

7. Diweddariad ar yr Asesiad Ffyniant

Cyflwynodd NE ddiweddariad i'r partneriaid ar drefniadau a chynnydd tuag at gynhyrchu Asesiad Ffyniant, gan gynnwys trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod grŵp y Swyddogion Arweiniol Rhanbarthol a Rhwydwaith Swyddogion Rhanbarthol y BGC. Nododd hefyd y cynhaliwyd cyfweliadau'n ddiweddar am swydd Cydgysylltydd Ffyniant Rhanbarthol (swydd dan nawdd Llywodraeth Cymru) a'r gobaith yw y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd ar 1af Mehefin.

Yna gofynnodd NE i'r Bwrdd ystyried yr argymhelliad ar dudalen 18 o becyn yr agenda ynghylch sut allai partneriaid roi cymorth i'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion a fyddai'n digwydd yn ystod y chwe mis nesaf. Cynigiodd TO gymorth y tîm Iechyd Cyhoeddus yn Rhwydwaith Swyddogion y BGC a nododd ei bod yn werth ystyried agwedd fwy di-dor ynghylch sut i symud ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei flaen ar sail amlasiantaethol yn hytrach nag fesul asiantaeth. O ran cyfranogiad rhanddeiliaid, cynigiodd HM gymorth i'r tîm ymgysylltu trwy gynnig 'drws agored' i fforymau a chymdeithasau sydd mewn bodolaeth eisoes, yn gysylltiedig â gwaith oedd gan PLANED ar y gweill. Awgrymodd SL ddefnyddio'r Fframwaith Ymgysylltu â'r Gymuned ac ailsefydlu Rhwydwaith Ymgysylltu Sir Benfro a hefyd defnyddio adnoddau oedd yn bodoli eisoes, fel rhaglen Llais y Gymuned. Dywedodd y byddai PAVS yn hapus i edrych ar ailsefydlu'r Rhwydwaith Ymgysylltu. Cynigodd IJ hefyd ddefnyddio'r Rhwydwaith Plismona Cymdogaethau a nododd oedd yn fforwm ymgysylltu â'r cyhoedd wedi hen sefydlu. **SL**

8. Datblygu gwefan a brand BGC Sir Benfro

Cyflwynodd JA bapur yn rhoi dewisiadau ar ddatblygu gwefan newydd a brand i'r BGC.

Nodwyd her trafod materion sydd angen adnoddau yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Dywedodd IW bod papur grŵp Gwaith a Gorffen Cyllid, yr eitem nesaf ar yr agenda, yn gofyn bod y BGC yn rhoi ffordd ymlaen i'r grŵp. Awgrymodd y gallai partneriaid gydweithio ar feysydd fel caffael, gan anelu at arbed arian y gallai partneriaid wedyn gyfrannu at gydgyllideb ar gyfer blaenoriaethau'r BGC. Gofynnodd am awgrymiadau gan y partneriaid ynghylch pa waith ychwanegol oedd ei angen i hybu'r broses. Dywedodd AW a SL nad oeddent mewn sefyllfa i gynorthwyo gyda gwaith y grŵp Gwaith a Gorffen Cyllid. Nododd RQ y byddai unrhyw dargedau effeithlonrwydd a darwyd gan y Gwasanaeth Tân yn mynd at ateb galwadau cyllidebau llai.

Cytunwyd y dylai partneriaid wneud awgrymiadau / cynigion ynghylch ble byddai modd arbedion ar y cyd, a fyddai wedyn yn cael eu cynnig i'w trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol o'r grŵp Gwaith a Gorffen Cyllid. **ALL**

O ran sefydlu gwefan newydd, cytunwyd ar edrych ar ddewis defnyddio myfyrwyr o Goleg Sir Benfro, fel byddai cynrychiolydd o'r coleg yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd yn y dyfodol. Os nad oedd hyn yn ymarferol, cytunwyd ar symud ymlaen gyda Dewis 3 a byddai gwefan yn cael ei sefydlu'n fewnol yng Nghyngor Sir Penfro. **LR**

O ran brand i'r BGC yn lle'r faner a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan y BGLl, nid oedd unrhyw gytundeb ar yr enghreifftiau a gylchredwyd. Felly, awgrymodd JA a chytunodd y partneriaid ar ymgynghori â disgyblion Ysgolion Uwchradd, fel cenhedlaeth y dyfodol, a gofyn iddynt gyfrannu at ddatblygu a dylunio logo a brand newydd i'r BGC. Byddai LR/NE yn cadw cyswllt â chydweithwyr Addysg i benderfynu gyda pha grwpiau oedran i gysylltu, a sut i symud hyn ymlaen. **NE/LR**

9. Diweddariad Grŵp Gwaith a Gorffen Cyllid

Awgrymwyd cylchredeg cyfarwyddyd i gynrychiolwyr grŵp Gwaith a Gorffen Cyllid yn amlinellu trafodaethau a chytundebau ar y ffordd ymlaen a awgrymwyd. **LR**

10. Diweddariad Grŵp Gwaith a Gorffen Eiddo

Rhoddodd CG diweddariad ar gynnydd. Nododd bod y camau byrdymor sy'n cael eu hamlinellu yn y cyfarwyddyd yn gymharol rwydd eu dwyn ymlaen. Fodd bynnag, roedd y camau tymor canolig yn fwy ansicr ac roedd y grŵp, felly, wedi gofyn am arweiniad y BGC ar beth ddylai blaenoriaethau'r grŵp fod.

Nododd JA, o ran ystâd Cyngor Sir Penfro, bod gormod o adeiladau pwrpasol a llawer ohonynt heb ddigon o ddefnydd arnynt, gan gynnwys ysgolion ac mai mewn meysydd fel hyn y byddai modd arbed arian. Dywedodd DL ei fod yn llai gobeithiol ynghylch posibilrwydd arbedion oherwydd, o ran ystadau'r Heddlu, bod angen llawer o fuddsoddi mewn isadeiledd. Felly, byddai arbedion yn hirdymor yn hytrach na byrdymor. Trafododd y Bwrdd syniad cyflwyno adeiladau amlswyddogaethol yn hytrach nag un defnydd i arbed arian, fel cynnwys swyddfeydd yr Heddlu neu feddygfeydd teulu o fewn ystadau ysgolion. Nododd IW y byddai arbed rhagor o arian mewn meysydd fel rheoli cyfleusterau.

Yn y cyfarfod diwethaf awgrymwyd bod y grŵp yn mapio'r adeiladau sydd ar gael yn ardal Hwlffordd ynghyd â gofynion sefydliadau unigol ar gyfer gweithio heini, gweithio swyddfa flaen a chefn ac ati. Cytunwyd y dylid dwyn hyn ymlaen, ond y dylid edrych ar ardal lai i ddechrau (e.e. Tyddewi). **CG**

11. Diweddariad CGG – Yr Economi: Adroddiad Panel Busnes Sir Benfro

Rhoddodd TS, Cadeirydd Panel Busnes Sir Benfro, ddiweddariad ar lwyddiannau allweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ogystal â materion sydd wedi codi a phosibiliadau datblygu i'r panel eu hystyried yn ystod y 12 mis nesaf.

Nodwyd llwyddiant a lle i ddatblygu mwy ar ddigwyddiadau fel Ironman a chystadleuaeth Plymio Clogwyni Red Bull ynghyd â'r materion ynghylch denu a dal gafael ar staff a grybwyllwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Roedd posibilrwydd

rhwystrau denu oedd wedi cael ei grybwyll yng nghyfarfodydd PBSB yn cynnwys cwestiynau ynghylch ansawdd addysg yn yr ardal yn ogystal â darpariaeth gwasanaeth iechyd.

Awgrymodd IJ ymgysylltu mwy â'r gymuned fusnes ynghylch hysbysebu diogelwch yr ardal. Nododd SM hefyd y cyflogwyd 131 o staff newydd yn Ysbyty Llwyn Helyg yn ystod y flwyddyn aeth heibio, oedd yn cynnwys 56 o feddygon newydd. Dywedodd fod yr ysbyty'n fywiog yng nghanol y gymuned ac nad oedd digon o ddathlu'n gyffredinol ar newyddion da.

O ran diweddariadau CGG yn gyffredinol, dywedodd TO fod y cyfrifoldeb i gadw golwg ar y CGG yn parhau a'i fod yn ganolog cyn dyfodiad y Cynllun Ffyniant newydd.

12. Materion yn cael eu dyrchafu o isbartneriaethau

Amlinellodd SL gais Fforwm Amgylchedd Sir Benfro, oedd yn cael ei gefnogi gan nifer o wirfoddolwyr mewn sefydliadau trydydd sector, bod y BGC yn ystyried rhoi treuliau am fynychu cyfarfodydd partneriaid.

Awgrymwyd bod y mater hwn yn cael ei ychwanegu at waith y grŵp Gwaith a Gorffen Cyllid i wneud cynigion ar ddwyn hyn ymlaen. **LR**

13. Blaenraglen Waith

Nododd NE bod SPJ wedi awgrymu'r eitem hon a gofynnodd am awgrymiadau ar bynciau i'w hychwanegu at raglen waith ar gyfer y 12 mis nesaf, gan gofio'r cyfnod pontio rhwng y CGG a'r Cynllun Ffyniant.

Awgrymodd IJ ac AW gynnal gweithdy yn y dyfodol i drafod pynciau rhaglen waith a sicrhau perchenogaeth y BGC. Gofynnodd NE hefyd i bartneriaid anfon awgrymiadau ar unrhyw agendâu BGC yn y dyfodol. **ALL**

14. Unrhyw Fater Arall

<u>Atborth o Seminar Deddf LlCD</u>

Rhoddodd NE ymateb byr i Seminar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 26ain Ebrill. Roedd Aelodau, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth CSP a phartneriaid y BGC wedi cael gwahoddiad i fynychu. Roedd presenoldeb yn y Seminar wedi bod yn dda ond nododd NE fod llawer o waith yn dal i'w wneud o ran cynyddu ymwybyddiaeth. Maint y newid corfforaethol sydd ei angen mewn sefydliadau unigol oedd un o'r negeseuon allweddol.

Gofynnodd AW a wnaed unrhyw benderfyniad o ran dewis ardaloedd cymunedol. Dywedodd NE y byddai papur yn dod i'r cyfarfod nesaf. Roedd trafodaethau dechreuol wedi cael eu cynnal yng nghyfarfodydd Rhwydwaith Swyddogion y BGC ac, o dderbyn yr agwedd ranbarthol, roedd yn bwysig cael cysondeb ar draws y tair sir. Roedd yn ymddangos mai'r dewis a ffafriwyd ar y funud oedd gweithio ar ôl troed o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (ACEHU); fodd bynnag, byddai hyblygrwydd i BGC unigol wneud gwaith wrth fesur i edrych ar fannau neu ardaloedd penodol pe bai'r gallu i wneud hynny. **NE**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30pm.